



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Y Daith Ddiwygio: Rhaglen Gymorth Barhaus i Ysgolion



Mae GwE yn gofyn i unigolion ddatgan diddordeb mewn cyfrannu at raglen gymorth barhaus i ysgolion yn y meysydd a ganlyn:

1. Cynllunio Cwricwlwm yr Ysgol Gyfan
2. Datgloi potensial un o'r MDaPh
 - Iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Cymraeg a Saesneg)
 - Mathemateg a Rhifedd
 - Gwyddoniaeth a Thechnoleg
 - Y Dyniaethau
 - Iechyd a Lles
 - Y Celfyddydau Mynegiannol
3. Asesu

Bydd unigolion yn gweithio mewn partneriaeth â'r Athro Graham Donaldson, GwE a chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru i ddatblygu arferion effeithiol mewn MDaPh a fydd yn helpu ysgolion ar hyd y Daith Ddiwygio.

[Cliciwch yma](#) i ddarllen y llythyr yn ei gyfanrwydd.

Am ragor o fanylion, gwylwch y fideo hwn: [Cyfleoedd](#)

[Dysgu Proffesiynol](#)

I ddatgan diddordeb, cwblhewch y [ffurflen hon](#) erbyn **25 Mehefin 2021**, gan nodi pa faes yr hoffech chi ei gefnogi.

Bydd angen i'r Pennaeth gefnogi pob datganiad o ddiddordeb.



Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr.

Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Rhaglen Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm i Gymru

Mae Rhaglen Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm i Gymru yn ailddechrau'r hanner tymor hwn. Cynhelir y gweithdai hyn ar sail clwstwr a gellir dod o hyd i amserlen [yma](#).

- Wythnos yn dechrau 14 Mehefin: Datblygu Gweledigaeth a Rennir
- Wythnos yn dechrau 21 Mehefin: Cynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm Sesiwn 2
- Wythnos yn dechrau 28 Mehefin: Cynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm Sesiwn 3

Yn ystod y sesiynau 2 awr bydd cyfleoedd rheolaidd i drafod, a mawr obeithiwn y gallwch ymuno â ni a chyd-weithwyr wrth i ni baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Gallwch gofrestru ar gyfer y gweithdai drwy [G6](#) ble byddwch chi'n derbyn dolen Zoom a'r llawlyfr cysylltiedig.



Gweminar: Cynllunio ar gyfer newid Cwricwlwm - Sesiwn 1

Diolch i bawb a fynychodd y weminar 'Cynllunio ar gyfer newid Cwricwlwm – Sesiwn 1'. Dilynwch y ddolen isod i weld y recordiad.

[Gweminar Gymraeg](#) | [Gweminar Saesneg](#)

Gweminar: 'Papurau Procio' ar y Daith Ddiwygio

Diolch i bawb a fynychodd y weminar 'Papurau Procio' ar y Daith Ddiwygio - dilynwch y ddolen hon i weld y recordiad: [Gweminar Gymraeg](#) | [Gweminar Saesneg](#)



Cynnig Proffesiynol GwE

Dilynwch y [ddolen hon at Gynnig GwE](#) ar gyfer y flwyddyn 2020-2021.

Mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [<https://g6.gwegogledd.cymru>].

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6. Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.

16/06/2021 - 01/07/2021	DYDDIAD			CYFRWNG
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Caergybi, Bodedern, Syr Thomas Jones)	16/06/21	23/06/21	30/06/21	Cymraeg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Syr Hugh Owen, D. Nantlle)	16/06/21	23/06/21	30/06/21	Cymraeg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Bryn Alyn, Clywedog, Rhosnesni)	16/06/21	23/06/21	30/06/21	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Rhyl, Prestatyn, Tir Morfa)	16/06/21	23/06/21	30/06/21	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Emrys ap Iwan, John Bright, Uwchradd Dinbych, Plas Brondyffryn)	16/06/21	23/06/21	30/06/21	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Tywyn, Bro Idris, Moelwyn, Berwyn, Ardudwy)	17/06/21	24/06/21	01/07/21	Cymraeg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Glan y Môr, Botwnnog, Eifionydd, Hafod Lon)	17/06/21	24/06/21	01/07/21	Cymraeg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Castell Alun, Cei Connah, Elfed, Argoed)	17/06/21	24/06/21	01/07/21	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Rhiwabon, Grango, Darland)	17/06/21	24/06/21	01/07/21	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (St David's, Treffynnon, St Richard Gwyn)	17/06/21	24/06/21	01/07/21	Saesneg
Datblygu Gweledigaeth a Rennir a Chynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm, Sesiynau 2 a 3 (Brynhyfryd, Dinas Bran & Ceiriog)	17/06/21	24/06/21	01/07/21	Dwyieithog
Rôl y Person Dynodedig ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) (Cyfrwng Cymraeg)	16/06/21			Cymraeg
Google for Education	17/06/21			Dwyieithog
RADY - Meddwl yn Wahanol am Ddysgwyr Difreintiedig	21/06/21			Saesneg
Rhwydwaith Tymhorol y Cyfnod Sylfaen (cyfrwng Saesneg)	23/06/21			Saesneg
Rhwydwaith Tymhorol y Cyfnod Sylfaen (cyfrwng Cymraeg)	24/06/21			Cymraeg
Datblygu Deiliannau Effeithiol a Defnyddio'r Dilyniant Cymorth (Carfan 8)	01/07/21			Saesneg

Rhaglen Datblygu Darpar CALU

Mae **Cylch 3** y Rhaglen Datblygu Darpar CALU yn cychwyn ym mis Medi 2021.

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw **18 Mehefin 2021**.

Cliciwch [yma](#) am wybodaeth am y Rhaglen a sut i ymgeisio.

Cewch ragor o fanylion yn y [fideo](#).

Cymorthyddion Dysgu
newydd eu penodi

Cymorthyddion
Dysgu wrth eu
gwaith

Darpar CALU

CALU

Cymorthyddion
Dysgu
Arbenigol



Newyddion a Gwybodaeth GwE

Rhaglen Iaith a Llythrennedd (RILL)

HELPU EICH DYSGWYR I FOD YN DDARLLENWYR MWY RHUGL

Cofrestrwch yma ar gyfer y rhaglen ddarllen a deall atodol bwrpasol newydd ar gyfer dysgwyr CA2, sydd ar gael nawr ar gyfer pob ysgol ledled y rhanbarth. Wedi'i dylunio a'i darparu mewn cydweithrediad rhwng GwE, Prifysgol Bangor a CIERI, bydd cofrestru i fod yn rhan o'r rhaglen hon yn rhoi mynediad i chi i adnoddau am ddim, hyfforddiant llawn a chefnogaeth ddilynol. Mae'r cais yn seiliedig ar sail y cyntaf i'r felin, Y dyddiadau hyfforddi cyntaf sydd ar gael yw w/c 28 Mehefin 2021, felly brysiwch a chliciwch ar y dolenni canlynol i gael [mwy o wybodaeth, ac/neu i gofrestru](#).






Helpu eich dysgwyr i fod yn ddarllenwyr mwy rhugl



Gwella Rhuglder Darllen Disgyblion:

STRATEGAETHAU DARLLEN AILADRODDOL A GEIRIAU AMLDER UCHEL

Dyma ddwy strategaeth adeiladu rhuglder ar sail tystiolaeth a ddyluniwyd ac a gyflwynwyd mewn cydweithrediad rhwng GwE ac arbenigwyr darllen o'r Sefydliad Cydweithredol ar gyfer Ymchwil, Tystiolaeth ac Effaith Addysg (CIEREI), Prifysgol Bangor i helpu dysgwyr yn CA2 a CA3 sydd eisoes â sgiliau datgodiog da ond sydd angen gwella eu rhuglder darllen er mwyn gwella eu sgiliau deall. Mae hwn yn adnodd rhad ac am ddim sydd ar gael i bob ysgol ledled y rhanbarth ac mae'n dod gyda hyfforddiant a chefnogaeth llawn, ar sail y cyntaf i'r felin, gyda dyddiadau hyfforddi ar gael o'r tymor hwn ac i dymor yr hydref 2021. [Cliciwch yma](#) i gael mwy o wybodaeth, ac/neu i wneud cais drwy ddilyn y ddolen isod.



Rhwydwaith Tymhorol y Cyfnod Sylfaen

PRYD?

15:45-16:45 ar 23/6 (sesiwn Saesneg)

15:45-16:45 ar 24/6 (sesiwn Cymraeg)

FFOCWS:

Sesiwn i fynd drwy gynnwys dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru 'Agor Llwybrau' sef y cyfnod dysgu sy'n arwain at Gam Cynnydd 1 (Cwricwlwm i Gymru)

COFRESTRWCH DRWY G6



Dyfodol Byd-eang GwE: leithoedd Rhyngwladol



CYFLEOEDD HYFFORDDI AR GYFER ATHRAWON YSGOLION CYNRADD

CERDD IAITH: DEFNYDDIO DULLIAU CREADIGOL I DDYSGU IEITHOEDD

SBAENEG / CYMRAEG / SAESNEG

Mae **British Council Cymru**’n cynnig rownd newydd o’u rhaglen hyfforddi ar-lein lwyddiannus iawn i helpu athrawon ysgolion cynradd i **ddysgu trydedd iaith** yn y dosbarth. Bydd y rhaglen hyfforddi’n tywys athrawon drwy wefan newydd, sef Cerdd iaith. Mae’r wefan a’i hadnoddau ar gael yn rhad ac am ddim ac yn cynnwys dros 30 o weithgareddau sy’n defnyddio cerddoriaeth a drama i **ddysgu Cymraeg a Sbaeneg**.

Gall athrawon anarbenigol, heb unrhyw wybodaeth flaenorol o Sbaeneg, ddefnyddio’r adnodd ac mae’r gweithgareddau yn datblygu fesul cam. Mae’r hyfforddiant hefyd yn addas i athrawon sydd â rhywfaint o wybodaeth am Sbaeneg neu gerddoriaeth.

Cynhelir y sesiynau hyfforddi nesaf ar **22 neu 23 Mehefin, 2021 (yr union ddyddiad i’w gadarnhau)**.

Am ragor o wybodaeth, manylion am gostau, cyllid a sut i gofrestru ar gyfer sesiwn, cysylltwch â

stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru

CYFLE AM GYLLID AR GYFER IEITHOEDD RHYNGWLADOL

Mae tîm Dyfodol Byd-eang GwE yn chwilio am ysgolion cynradd sydd am ddatblygu eu darpariaeth leithoedd Rhyngwladol wrth baratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.

Rydym ni’n cynnig cyfle i nifer o ysgolion yng ngogledd Cymru **gael tanystrifiad i adnoddau Power Language Schools. Ariennir y tanystrifiad hwn yn llawn.**

Os oes gennych chi ddiddordeb ac yr hoffech wneud cais am y tanystrifiad blwyddyn hwn a ariennir yn llawn, cysylltwch â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru erbyn 30 Mehefin 2021.

PRIFYSGOL AGORED - 2021-2022

Rydym yn ffodus dros ben i fod mewn sefyllfa i gynnig **cyfle i athrawon cynradd ddysgu iaith ryngwladol, a chael hyfforddiant i gyflwyno ieithoedd mewn ysgolion cynradd** drwy’r Brifysgol Agored.

Ariennir y cwrs yn llawn gan Ddyfodol Byd-eang GwE.

Os oes gennych chi, neu un o’ch cydweithwyr yn yr ysgol, ddiddordeb mewn cofrestru ar y cwrs, cysylltwch â

stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru

Helpu Eich Plentyn i Ddysgu gyda Mike Gershon

Mae Helpu Eich Plentyn i Ddysgu gyda Mike Gershon yn gyfres o glipiau fideo, canllawiau a thaflenni, sy’n datgloi cyfrinachau dysgu, gan roi’r offer, y syniadau a’r strategaethau sydd eu hangen ar rieni i helpu eu plant i ddysgu, tyfu a ffynnu.

Bydd yr adnodd dwyieithog hwn ar gael yn rhad ac am ddim, i rieni plant oed cynradd ar draws y rhanbarth. Mae’r fideo rhagarweiniol a chodau arbennig ar gael gan YCG eich ysgol.

Helpu Eich Plentyn i Ddysgu gyda Mike Gershon



Rhaglen Feistr Genedlaethol Newydd

YM MHRIFYSGOL BANGOR

75 o lefydd wedi cael eu hariannu yn llawn ar y rhaglen MA Genedlaethol newydd ym Mhrifysgol Bangor, yn cychwyn ym mis Medi 2021. Croesewir ceisiadau rŵan!

A oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r buddsoddiad mwyaf gan Lywodraeth Cymru mewn addysg broffesiynol i athrawon ar ddechrau gyrfa? Ydych chi'n awyddus i ychwanegu at eich gwybodaeth broffesiynol, ymwneud ag ymchwil a gwella eich ymarfer proffesiynol fel athro ar lefel Meistr?

Mae'r MA Addysg (Cymru) yn rhaglen wirioneddol drawsnewidiol ac arloesol ar gyfer athrawon ar ddechrau gyrfa (rhwng blwyddyn 3 a 6) yng Nghymru. Mae gennym 75 o lefydd wedi'u hariannu'u llawn yn yr Ysgol Gwyddorau Addysg, Prifysgol Bangor. Bydd 25 o'r llwydd hynny ar gael yn benodol i ysgolion partneriaeth CaBan Bangor / CIEREI.

Mae'r rhaglen unigryw hon wedi cael ei datblygu ar y cyd rhwng 7 prifysgol ledled Cymru a phanel o arbenigwyr addysg rhyngwladol. Dyma'r rhaglen MA Addysg Genedlaethol gyntaf i gael ei darparu yn llwyr trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Trwy ddilyn y rhaglen byddwch yn ychwanegu at eich sgiliau arwain, yn annog awtonomi proffesiynol a chryfhau barn broffesiynol ym mhob cyd-destun a sefyllfa. Bydd y pwyslais ar arfer yn arwain at ymarferwyr addysgol a fydd yn gweithredu'n foesegol, yn datblygu sgiliau beirniadol mewn ymchwil ac ymarfer ac yn cydweithio ac yn ymateb mewn modd arloesol i heriau.

Bydd y dysgu yn gyfuniad o weithgareddau ar lein cydamserol ac anghydamserol, yr asesiadau yn aseiniadau seiliedig ar y rhaglen a'r holl gwrs wedi'i gynllunio i gyd-fynd â chyd-destun ac amserlen waith athrawon llawn amser.

Am fwy o wybodaeth am gynnwys y rhaglen, y gofynion mynediad a'r cymelliannau ariannol posibl, [cliciwch yma](#).

Newyddion a Gwybodaeth Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

Wythnos Ffocws Arweinyddiaeth Genedlaethol *CADWCH Y DYDDIAD*

28 Mehefin - 2 Gorffennaf 2021 - 09:30-11:30

Prif siaradwyr a gweithdai sy'n amlygu pwysigrwydd arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer gwella deilliannau i ddysgwyr, gyda chyfleoedd i weld sut gallai hyn edrych ar waith. Manylion i ddilyn.



Mae Sefydlu ANG yng Nghymru yn newid...

DYLAI POB YSGOL FOD YN BAROD YM MIS MEDI 2021 AR GYFER ANG

[Cliciwch yma](#) i weld y camau sy'n rhaid i bob ysgol eu dilyn er mwyn sefydlu ANG o fis Medi 2021 ymlaen.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â ieuanjones@gwegogledd.cymru



Gwybodaeth ac arweiniad Llywodraeth Cymru

Diwygiadau cwricwlwm ac asesu. Arolwg: paratodau ar gyfer 2022

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwmni Arad â'r Brifysgol Agored yng Nghymru i gynnal arolwg ar baratodau ysgolion a lleoliadau eraill ar gyfer gweithredu'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu. Mae'r [arolwg](#) wedi'i anelu at benaethiaid, uwch-reolwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau nas gynhelir sy'n darparu addysg. Bydd ymatebion yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i adnabod y gefnogaeth sydd ei hangen i sicrhau bod ysgolion yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd o 2022. Arolwg 10-15 munud yw hwn a'r dyddiad cau yw **16 Gorffennaf 2021**. [Cliciwch yma](#) i gymryd rhan.



Adroddiad Terfynol: Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd



Mae'r Athro Charlotte Williams OBE wedi cynhyrchu fideo yn dilyn cyhoeddiad o'i [hadroddiad terfynol](#) yn ddiweddar. Dilynwch y [ddolen hon](#) i'r fideo.

Cynhadledd Rithiol E-sgol

CADWCH Y DYDDIAD

DYDD MERCHER, 7 GORFFENNAF 2021

Dysgwch fwy am e-sgol, sut mae ysgolion yn datblygu diwylliant dysgu cyfunol, siaradwyr MIEE, gwybodaeth am ddefnyddio Google Classroom a diweddariadau Hwb.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Ysbrydoli, Ysgogi, Ymgysylltu

Cynhadledd Dysgu Cyfunol

Inspire, Motivate, Engage

Blended Learning Conference



Ymgynghoriadau ar ganllawiau ychwanegol Cwricwlwm i Gymru

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill wedi bod yn gweithio i gyd-lunio'r ychwanegiadau penodol i ganllawiau'r cwricwlwm a nodwyd ym mis Ionawr 2020. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn paratoi Codau drafft yn unol â gofynion Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Maent yn gofyn am eich adborth ar y drafftiau hyn erbyn **16 Gorffennaf** fel rhan o'r broses barhaus o ddatblygu ar y cyd. Bydd y gweithgору ymarferwyr yn defnyddio eich sylwadau i helpu i freinio'r drafftiau, cyn i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru gael eu diweddarau ar-lein yn yr Hydref. Ceir dolenni i'r dogfennau ymgynghori a'r ffurflenni ymateb [yma](#).

Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

Arolwg Ysgolion Uwchradd y Rhwydwaith Hydref 2021



Yn nhymor yr hydref 2021, mae cyfle i'ch ysgol ymgymryd ag arolwg y Rhwydwaith, yn rhad ac am ddim, i gael data amhrisiadwy ar iechyd a lles i'w ddefnyddio yn hunanwerthusiad yr ysgol. Bydd y data'n helpu i ddeall effeithiau parhaus Covid 19 a chefnogi amrywiaeth o flaenoriaethau addysgol, fel y Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Iechyd Meddwl a'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd digwyddiadau rhithwir yn cael eu cynnal ym mis Mehefin i helpu arweinwyr iechyd a lles i baratoi. Bydd modd cofrestru ar gyfer yr arolwg ym mis Gorffennaf.

[Cliciwch yma](#) am fanylion pellach.

Unrhyw ymholiadau? Cysylltwch â'r tîm ar: shrn@caerdydd.ac.uk



Cynhadledd Addysg Technocamps 2021: Ymgysylltu â Digidol



DYDD IAU, 4 TACHWEDD 2021 - 13:30-18:00 - STADIWM LIBERTY, ABERTAWE

Mae Technocamps yn cynnal eu Cynhadledd Addysg 2021 ddydd Iau, 4 Tachwedd.

Y nod yw dod ag addysgwyr digidol Cymru ynghyd i rannu arferion gorau, hysbysu am y newidiadau cwricwlwm diweddaraf a hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael.

Cynhelir y digwyddiad rhad ac am ddim hwn yn Stadiwm Liberty, Abertawe a'i ffrydio'n fyw i'r rhai sy'n methu â mynychu. Bydd sgysiau yn berthnasol i addysgwyr ysgolion cynradd ac uwchradd.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion ac i gofrestru.



Rhaglen Seminar GCCDD Seminarau 3 a 4:

EGWYDDORION DYLUNIO DYSGU - EGWYDDORION CYFFREDINOL A DIFFINIO CYSYNIADAU

DYDD IAU, 17 MEHEFIN 2021 - 16:00-16:30 A 16:30-17:00

[COFRESTWCH YMA](#)

Agenda / Trosolwg 16:00-16:30

Egwyddorion cyffredinol dylunio dysgu

- Gosod cyd-destun
- Trosolwg o egwyddorion cyfarwyddyd Rosenshine
- Trafodaeth

Agenda / Trosolwg 16:30-17:00

Diffinio cysyniadau

- Beth yw cysyniad?
- Enghreifftiau darluniadol a rhai nad ydynt yn enghreifftiau
- Trafodaeth



UEFA Euro 2020: Adnoddau Cwricwlwm Cymraeg Cymdeithas Bêl-Droed Cymru

Cynhyrchwyd adnoddau addysg ar gyfer athrawon a disgyblion CA2. Crëwyd 24 o dasgau dysgu cyfoethog yn unol â'r chwe maes pwnc cwricwlwm. Dilynwch y dolenni i'r [trosolwg](#) a'r [canllaw adnoddau](#).

Mae'r adnoddau yn rhad ac am ddim, ac ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Gellir eu darganfod ar y plattfform digidol HWB:

Saesneg – <https://hwb.gov.wales/playlists/view/4273eea5-d2c4-4c99-b7f8-6c9f91cb7da2/en/1>

Cymraeg – <https://hwb.gov.wales/playlists/view/4273eea5-d2c4-4c99-b7f8-6c9f91cb7da2/cy/1>



Cyrsiau Ar-Lein Am Ddim i Rieni: Dyddiadau Olaf ar gyfer Tymor Yma

HELPWCH EICH PLENTYN I DDARLLEN

Cwrs byr ar-lein i rieni a gofawyr plant Cyfnod Sylfaen neu blant sydd ar fin dechrau'r ysgol.

Bydd y cwrs ar-lein hwn yn helpu rhieni a gofawyr plant blynyddoedd cynnar i feithrin hyder mewn technegau sylfaenol a gweithgareddau hwyliog er mwyn annog eu plentyn i ddysgu darllen.

Dyddiadau a dolenni i gofrestru ar gael [yma](#).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu mae arnoch angen taflenni i'w hanfon at rieni, anfonwch e-bost

jane.watkins@adultlearning.wales



GEMAU ADFER

Cyfes o weithdai yn defnyddio gemau creadigol fel trosiadau deinamig i helpu i roi dealltwriaeth ymgorffored o Bedair Colofn Lles.

Cylchedau niwron yn yr ymennydd yw'r rhain sy'n sylfaen i iechyd meddwl, a gellir eu cryfhau gydag ymarferion, yn union fel ein hiechyd corfforol.

Dysgir technegau a all helpu i ddatblygu arferion meddwl iach a chreadigol.



THEATR CYNEFIN

- 1 dydd yr wythnos
- am 4 wythnos
- BL 9 & 10
- Grwp o 15
- Hunan-ddewis
- Gofod Diogel
- Tymor yr Haf 2021
- **Cyllid Ar Gael**

<https://arts.wales/cy/cronfa-adfer-dysgu-creadigol>
Dyddiad Cau: 17eg Fehefin 2021

Cyswllt: iwan@cynefin.org
Ffon: 07961 733708

- Diwrnod 1: Rhagolwg – Y dewrder i fod yn hapus
- Diwrnod 2: Sylw – Cadw'r llygad ar y bel
- Diwrnod 3: Gwytnwch – Dal dy dir
- Diwrnod 4: Haelioni - Bregusrwydd yw Eich Pŵer



Ymgynghoriad CWRE

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad er mwyn canfod barn rhanddeiliaid ar y canllawiau i gefnogi ysgolion i gynllunio profiadau sy'n gysylltiedig â gyrfaedd a gwaith (CWRE) yn eu cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr 3 i 16 oed.

Ymgynghoriad CWRE

Dyddiad cau yr ymgynghoriad yw 16 Gorffennaf, 2021

I fynegi eich barn am y canllawiau CWRE ewch i'r ddolen isod:

<https://llyw.cymru/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-ynghylch-profiadau-syn-gysylltiedig-gyrfaedd-gwaith-cwre>

Gweithdai adborth CWRE (TEAMS)

Mae Llywodraeth Cymru yn chwilio am randdeiliaid i gymryd rhan mewn gweithdai er mwyn trafod eu barn am CWRE.

I gymryd rhan yn y gweithdai, anfonwch e-bost at: nick.morgan@miller-research.co.uk

GWEITHDY	DYDDIAD	GRŴP DARGED
1	Dydd Mercher 16.06.2021 16:00-17:30	Ysgolion prif ffrwd ac arbennig – ffocws ar y cynradd
2	Dydd Iau 17.06.2021 14:00-15:30	Cyflogwyr, mudiadau gwirfoddol, cynrychiolwyr o'r gymuned leol
3	Dydd Mercher 23.06.2021 10:00-11:30	Ymarferwyr arbenigol mewn gyrfaedd, cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol, consortia ac eraill
4	Dydd Iau 01.07.2021 16:00-17:30	Ysgolion prif ffrwd ac arbennig – ffocws ar yr uwchradd
5	Dydd Mawrth 06.07.2021 14:00-15:30	Ysgolion prif ffrwd ac arbennig – ffocws ar unedau cyfeirio a darparwyr EOTAS eraill
6	Dydd Iau 08.07.2021 16:00-17:30	Pawb – gweithdy i ddal barn pob grŵp targed

BAC / THS - Adnoddau Newydd

Y cyntaf o adnoddau #DysguProffesiynol i gefnogi addysgu addysg dinasyddiaeth a gwleidyddiaeth. [Cliciwch yma.](#)

Gweithgareddau rhyngweithiol, fideos, animeiddiadau a llawer mwy. Adnoddau dinasyddiaeth fyd-eang a gwleidyddiaeth newydd i gefnogi dysgu ac addysgu'r Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen.

Rhagor o fanylion ar gael [yma](#).

Lansiad 'Y Silff Lyfrau'

Fe ddaeth hi'n amser agor 'Y Silff Lyfrau'! Lansiad gwefan o adnoddau gwreiddiol, cyfredol a rhyngweithiol i hyrwyddo sgiliau darllen CA3 (laith Gyntaf) - mae clawr ar ôl clawr o syniadau newydd arni! Ymunwch â ni fore dydd Mercher, 30 Mehefin am 9:30yb - cofrestrwch [YMA](#).



Datgloi Arweinyddiaeth

DYDD GWENER, 18 MEHEFIN - 09:30-11:30 | DYDD GWENER, 25 MEHEFIN - 09:30-11:30 | DYDD GWENER, 2 GORFFENNAF - 09:30-11:30

Ymunwch â ni ar gyfer cyfres nesaf gweminarau Datgloi Arweinyddiaeth yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru. Bydd y rhaglen ddysgu broffesiynol hon yn edrych ar arweinyddiaeth yng Nghymru a'i chyd-destun addysgol. Bydd pob gweminar yn cael ei harwain gan siaradwr gwadd nodedig gan gynnwys: Cerys Furlong (Prif Weithredwr Chwarae Teg), Yr Athro Damian Hughes (Athro Seicoleg Sefydliadol a Newid ym Mhrifysgol Fetropolitan Manceinion) a Dai Rees (Arweinydd Perfformiad a Strategaeth). **Am ddim, cofrestru yn hanfodol** - <https://nael.cymru/cy/events/>


Trawsffurfio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

DIGWYDDIAD DYSGU PROFFESIYNOL AR-LEIN CYMRU AR GYFER
YSGOLION CYNRADD, UWCHRADD AC ARBENNIG

📅 **DYDD IAU, 24 MEHEFIN 2021** 🕒 **08:30-15:30**

Mae ACRh yng Nghymru yn newid. Bydd Hawliau, Tegwch, Cynhwysiant a Grymuso yn ganolog wrth gynllunio a darparu cwricwlwm statudol. I gael rhagor o wybodaeth a dysgu sut i lunio ACRh o ansawdd uchel, ymunwch â ni yn y gynhadledd undydd hon i ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion. I gofrestru, dilynwch y [ddolen hon](#).



post@gwegogledd.cymru

